# LLOYD, Syr WALTER (1580 - 1662?) Llanfair Clydogau, Sir Aberteifi, Brenhinwr

**Enw:** Walter Lloyd
**Dyddiad geni:** 1580
**Dyddiad marw:** 1662?
**Priod:** Bridget Lloyd (née Pryse)
**Rhiant:** John Lloyd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** Brenhinwr
**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
**Awdur:** Herbert John Lloyd-Johnes

mab John Lloyd, siryf sir Aberteifi (1602). Cafodd ei addysg yng Ngholeg Lincoln, Rhydychen. Merch Thomas Pryse, Glanffrêd, Sir Aberteifi, oedd ei wraig. Bu'n siryf Sir Aberteifi yn 1621. Fe'i dewiswyd yn aelod seneddol dros sir Aberteifi yn 1640, a rhoes ei bleidlais yn erbyn cosbi Strafford. Yn 1644 cymerwyd ei sedd oddi arno gan y Senedd am iddo esgeuluso dyfod i'r t eithr mynd yn hytrach i bencadlys y brenin a glynu wrth blaid hwnnw ('for deserting the Service of the House, being in the King's quarters and adhering to that party'). Fe'i dewiswyd yn gomisiynwr gw r ac offer rhyfel dros Siarl I yn 1642 a gwnaethpwyd ef yn farchog yn 1643. Cafodd ei ddirwyo i'r swm o £1,003 9s. 0c. gan y Senedd yn 1647 a chymerwyd ei stadau oddi arno yn 1651. Cafodd fyw i weld yr Adferiad; tybir iddo farw tua'r flwyddyn 1662. Canodd Mrs. Katherine Phillips ('The Matchless Orinda'), a fu'n byw yn nhref Aberteifi, gân o glod iddo. Fe'i disgrifiwyd gan awdur cyfoes fel hyn: ' a gentleman and a scholar, elegant in his tongue and pen, nobly just in his deportment, naturally fit to manage the affayres of his country.'

## Awdur

**Major Herbert John Lloyd-Johnes**, (1900 - 1983)

## Ffynonellau


W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895)

L. E. Lloyd-Theakston and John Davies, *Some family records & pedigrees of the Lloyds of Allt yr Odyn, Castell Hywel, Ffos y Bleiddiaid, Gilfach Wen, Llan Llyr and Waun Ifor* (Rhydychen 1912-1913)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q7965470


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu